



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Ymgynghoriad ar newidiadau yng Ngorchymyn y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) 2008

Dyddiad: 17 Tachwedd 2021



Scottish Government
Riaghaltas nah-Alba
gov.scot



Department of
**Agriculture, Environment
and Rural Affairs**
www.daera-ni.gov.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon aton ni yn:

ViewsonAHDB@defra.gov.uk

Consultation Coordinator

Defra

Foss House

Kings Pool

Unit 4 Foss House

1-2 Peasholme Green

York YO1 7PX www.gov.uk/defra

Tabl Cynnwys

1. Diben yr ymgynghoriad hwn.....	4
Y broses ymgynghori a sut i ymateb.....	4
Ar bwy y bydd y cynigion hyn yn effeithio?	4
Sut i ymateb.....	5
2. Cyfrinachedd a diogelu data	5
Cyfrinachedd a chwestiynau amdanoch chi	7
3 Rhagymadrodd.....	9
Cefndir.....	9
Strwythur llywodraethu a chyfeiriad strategol newydd i'r AHDB	10
Canlyniad pleidleisiau'r sectorau garddwriaeth a thatws	11
4 Cynigion ar gyfer diwygiadau â blaenoriaeth yng Ngorchymyn yr AHDB	12
Nodau polisi.....	12
Dyfodol yr ardollau garddwriaeth a thatws ym Mhrydain Fawr	13
Pleidlais reolaidd i dalwyr ardollau.....	16
Ymestyn rhychwant Gorchymyn yr AHDB	19
Newid yn hyblygrwydd cyfraddau'r ardoll yn sector defaid Lloegr	21
5 Diwygio Gorchymyn yr AHDB yn y dyfodol	22
6 Beth sy'n digwydd nesaf?.....	23

1. Diben yr ymgynghoriad hwn

- 1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar gynigion ar gyfer diwygiadau deddfwriaethol i Orchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008 ac mae'n gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan lle caiff ardoll ei chasglu gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB). Mae gan lywodraeth y DU a llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gyfrifoldeb ar y cyd dros Orchymyn yr AHDB, ac rydym wedi cydweithio i lunio'r ymgynghoriad hwn. Bydd y newidiadau arfaethedig yn sefydlu'r sylfeini deddfwriaethol ar gyfer AHDB diwygiedig ac yn eistedd ochr yn ochr â gwelliannau sydd eisoes ar y gweill yn strwythur a llywodraethiant yr AHDB i ddarparu sefydliad mwy effeithlon a phenodol sy'n rhoi gwerth am arian a mwy o atebolrwydd i'r rhai a fydd yn talu ardollau yn y dyfodol.
- 1.2 Mae'r cynigion ymgynghori yn bwrw ymlaen â'r argymhellion a nodwyd yn ymateb Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i'r Cais am Safbwyntiau ar ddyfodol yr AHDB¹ ac mae'n ymateb i ganlyniad y pleidleisiau diweddar yn y sectorau garddwriaeth a thatws ledled Prydain Fawr. Mae'r cynigion a'r cwestiynau ymgynghori wedi'u nodi isod er mwyn gofyn eich barn chi ac mae drafft o'r Gorchymyn AHDB diwygiedig i'w weld yn Atodiad 2 (ynghlwm ar wahân) er mwyn ichi weld sut y gallem roi'r newidiadau hyn ar waith mewn deddfwriaeth, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn.
- 1.3 Mae'n bwysig nodi hefyd na fydd yr AHDB yn cynnig gwasanaethau i ddiwydiannau yng Nghymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon lle mae diwydiannau eisoes yn cael eu gwasanaethu gan gyrff ardollau eraill, er enghraifft, yn y sectorau cig coch, oni chytunwyd bod gwaith cydweithredol penodol rhwng y gyrff ardollau yn fuddiol i bawb.

Y broses ymgynghori a sut i ymateb

Ar bwy y bydd y cynigion hyn yn effeithio?

- 1.4 Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyfeirio at ffermwyr, tyfwyr, proseswyr ac eraill yn y gadwyn gyflenwi ledled y DU sy'n talu ardoll statudol yn benodol i'r AHDB am wasanaethau mewn chwe sector sy'n cynnwys: Grawnfwydydd a Had Olew (ledled y DU), Cig Eidion, Defaid a Moch (yn Lloegr), a Llaeth, Garddwriaeth a Thatws (ym Mhrydain Fawr). Mae'n nodi cynigion i ymateb i ganlyniad y pleidleisiau diweddar yn y sectorau garddwriaeth a thatws ledled Prydain Fawr a diwygiadau eraill i'r AHDB.

¹ [Cyhoeddi ymateb y llywodraeth i'r cais am safbwyntiau ar yr AHDB - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

Mae'r ymgynghoriad hefyd wedi'i anelu at gyrff ymchwil a allai weithio gyda'r AHDB, cyrff masnach amaethyddiaeth a garddwriaeth ac unrhyw sefydliadau eraill sydd â buddiant yn y gwaith y mae'r AHDB yn ei gyflawni.

Sut i ymateb

1.5 Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 17 Tachwedd 2021 a bydd ar agor ar gyfer ymatebion am gyfnod o saith wythnos. **Bydd y cyfnod ymgynghori yn cau am hanner nos ar 10 Ionawr 2022.** Rydym wedi gofyn sawl cwestiwn penodol ichi drwy'r ddogfen hon i gyd. Os oes gennych unrhyw farn arall am bwnc yr ymgynghoriad hwn, sydd heb gael sylw, mae croeso ichi roi'r safbwyntiau hyn yn eich ymateb. Cewch ymateb drwy ddefnyddio'r arolwg ar-lein yma <https://consult.defra.gov.uk/ahdb-relationship-team/ahdb-order>. Yno gallwch lawrlwytho fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r arolwg ar ffurf PDF (gweler 'Related' ar y wefan). Os ydych chi'n defnyddio technoleg gynorthwyol (fel darllenydd sgrin) a bod arnoch angen fersiwn o'r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch neges at ViewsonAHDB@defra.gov.uk i ofyn am y fformat y mae arnoch ei angen. Bydd yn ein helpu os byddwch yn rhoi gwybod i ni pa dechnoleg gynorthwyol rydych yn ei defnyddio. Fel arall, gellir anfon ymatebion ysgrifenedig drwy'r ebost at ViewsonAHDB@defra.gov.uk neu eu hanfon i'r cyfeiriad isod.

Defra
Consultation Coordinator
Defra
Foss House
Kings Pool
Unit 4 Foss House
1-2 Peasholme Green
York YO1 7PX

2. Cyfrinachedd a diogelu data

2.1 Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn: www.gov.uk/defra a gellir ei lawrlwytho hefyd drwy ddolen ar wefannau'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Bydd atodiad i'r crynodeb ymgynghori yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd **ond ni fydd yn cynnwys** enwau personol, cyfeiriadau na manylion cysylltu eraill.

2.2 Caiff Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn i sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol a'ch manylion cysylltu preifat (e.e. cyfeiriad cartref, cyfeiriad ebost, etc.).

2.3 Os byddwch yn clicio ar '**Hoffwn**' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir ichi ddweud yn glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro'ch rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gall gwybodaeth mewn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn fod ar

dir i'w rhyddhau i'r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â'r gyfraith ar weld gwybodaeth, sef Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000) a Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018). Mae arnon ni rwymedigaethau, yn bennaf o dan yr EIR, Deddf 2000 a Deddf 2018, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr neu i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau. O gofio hyn, byddai'ch esboniad chi o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd i'ch ymateb cyfan neu ran ohono yn ein helpu i gydbwysu'r rhwymedigaethau hyn ynglŷn â datgelu yn erbyn unrhyw rwymedigaeth ynglŷn â chyfrinachedd. Os cawn ni gais am yr wybodaeth rydych chi wedi'i darparu yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd i'ch ymateb, ond allwn ni ddim gwarantu bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad.

2.4 Os byddwch yn clicio ar **'Na hoffwn'** mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond fyddwn ni ddim yn trefnu bod eich enw personol a'ch manylion cysylltu preifat ar gael i'r cyhoedd.

2.5 Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon, a bydd pob un ohonynt yn ymdrin â'r data yn unol â'u polisïau preifatrwydd unigol nhw ac yn unol â Deddf Diogelu Data 2018². Gallwch ddod o hyd i hysbysiad preifatrwydd y gweinyddiaethau yma:

- Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru>
- Llywodraeth yr Alban: [Privacy - gov.scot \(www.gov.scot\)](https://www.gov.scot/privacy)
- Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon: [DAERA Privacy Statement | Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs \(daera-ni.gov.uk\)](https://daera-ni.gov.uk/daera-privacy-statement)

2.6 Gall fod adegau pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gyda dadansoddwyr allanol. Er mwyn dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu adroddiad o'r crynodeb o'r ymatebion yn unig y gwneir hyn.

2.7 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol â dogfen Swyddfa'r Cabinet "Consultation Principles" sydd ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw at:

² [Deddf Diogelu Data 2018 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

Defra
Consultation Coordinator
Defra
Foss House
Kings Pool
Unit 4 Foss House
1-2 Peasholme Green
York YO1 7PX

Neu anfonwch neges ebost: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Cyfrinachedd a chwestiynau amdanoch chi

C1. Hoffech chi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol (dewiswch un opsiwn)?

- Hoffwn, mae'r cyfan yn gyfrinachol
- Hoffwn, mae rhywfaint ohono'n gyfrinachol
- Na hoffwn, does dim ohono'n gyfrinachol

(Os ydych chi wedi ateb, 'Hoffwn, mae rhywfaint ohono'n gyfrinachol', nodwch pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac eglurwch eich rhesymau).

C2. Beth yw'ch enw chi (enw cyntaf a chyfenw)?

C3. Beth yw'ch cyfeiriad e-bost?

C4. Dywedwch sut rydych chi'n ymateb, gan ddewis o blith y canlynol (dewiswch bob opsiwn sy'n berthnasol i chi):

- Busnes amaethyddiaeth neu arddwriaeth
- Sefydliad Ymchwil
- Corff masnach sector neu sefydliad aelodaeth
- Unigolyn
- Arall (rhowch y manylion isod)

C5. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch enw'r sefydliad rydych yn ymateb ar ei ran.

C6. Nodwch pa leoliad y mae'ch ymateb yn ymwneud ag ef, gan ddewis o blith y canlynol (dewiswch bob opsiwn sy'n berthnasol i chi):

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Arall (dywedwch ble)

C7. Ydych chi'n dalwr ardoll? Ffermwr, tyfwr, prosesydd, masnachwr, neu fusnes cadwyn gyflenwi cysylltiedig yn y DU sy'n talu ardoll statudol yn benodol i'r AHDB am wasanaethau yn y sectorau canlynol: Grawnfwydydd a Had olew (ledled y DU), Cig Eidion, Defaid a Moch (yn Lloegr), a Llaeth, Garddwriaeth a Thatws (ym Mhrydain Fawr).

- Ie
- Na ddylai
- Ddim yn gwybod

C8. Os ydych yn talu ardoll, pa sectorau rydych chi'n talu ardoll ar eu cyfer? Dewiswch o blith canlynol (cewch ddewis sawl opsiwn os yw'n berthnasol):

- Grawnfwydydd
- Hadau olew
- Llaeth
- Moch
- Cig eidion
- Cig oen
- Tyfwr tatws
- Prosesydd tatws a/neu fasnachwr
- Garddwriaeth – Madarch
- Garddwriaeth – Bylbiau a blodau awyr agored

- Garddwriaeth – Planhigion bwytadwy a ddiogelir
- Garddwriaeth – Ffrwythau Meddal
- Garddwriaeth – Planhigion addurnol a ddiogelir
- Garddwriaeth – Llysiau'r Maes
- Garddwriaeth – Ffrwythau Coed
- Garddwriaeth – Stoc galed y feithrinfa
- Garddwriaeth – Arall rhowch y manylion isod
- Dim un o'r uchod

C9. A ydych yn fodlon cysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb i'r ymgynghoriad ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben?

- Ie
- Na ddylai

3 Rhagymadrodd

Cefndir

3.1 Mae'r AHDB yn gorff ardollau statudol a ariennir gan ffermwyr, tyfwyr ac eraill yn y gadwyn gyflenwi amaethyddiaeth a garddwriaeth i ddarparu gwasanaethau i helpu'r sector i addasu a ffynnu mewn amgylchedd polisi a masnachol sy'n newid. Cafodd yr AHDB ei greu yn 2008 yn sgil adolygiad helaeth o gyrrff ardollau blaenorol. Ar hyn o bryd mae'r AHDB yn gwasanaethu nifer o sectorau amaethyddol a garddwriaethol, gyda darllediadau amrywiol ledled Lloegr, Prydain Fawr a'r Deyrnas Unedig. Rhyngddynt, mae sectorau'r AHDB yn cynnwys dros 70% o gyfanswm allbwn amaethyddol a garddwriaethol y DU. Mae'r AHDB yn codi rhyw £60 miliwn y flwyddyn mewn ardollau statudol. Dim ond er budd y sector hwnnw y caniateir gwario ardoll a godir mewn un sector.

3.2 Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig 'Gais am Safbwyntiau' ar berfformiad a rôl yr AHDB yn y dyfodol. Dangosodd y canlyniadau³ fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo bod gwerth mewn ardoll statudol i gefnogi ymdrech ar y cyd mewn meysydd fel mynediad i farchnadoedd, datblygu'r farchnad allforio, marchnata a hyrwyddo domestig, ymchwilio a datblygu, cyngor technegol, a chyfnewid

³ [Cyhoeddi ymateb y llywodraeth i'r cais am safbwyntiau ar yr AHDB - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

gwybodaeth i helpu sectorau i addasu a gwella cynhyrchiant a chystadleurwydd. Ond, datgelodd yr ymatebion hefyd fod yna rannau o rôl a pherfformiad yr AHDB y mae angen eu diwygio a'u gwella. Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at yr angen i ailwampio strwythurau llywodraethu'r AHDB er mwyn lleihau biwrocratiaeth a chostau er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol yn y dyfodol. Nododd talwyr ardollau hefyd eu bod am gael mwy o lais yn y ffordd y caiff eu harian ei wario a mwy o ddylanwad dros weithgareddau blaenoriaeth yr AHDB fel y gallant fod yn siŵr eu bod yn cael gwerth am arian.

3.3 Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i'r Cais am Safbwyntiau ym mis Ebrill 2020. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad i ddiwygio'r AHDB i leihau biwrocratiaeth, gwella llywodraethiant, rhoi mwy o atebolrwydd i dalwyr ardollau a sicrhau cynrychiolaeth ehangach i farn y trethdalwyr yng nghyfeiriad a blaenoriaethau'r AHDB. Un o'r prif argymhellion oedd cyflwyno pleidlais reolaidd bob pum mlynedd ar y blaenoriaethau ar gyfer yr ardoll ym mhob sector. Gyda'r AHDB yn gwasanaethu sawl sector, bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr ardoll yn rhoi gwerth da am arian gan helpu i gefnogi ffermwyr a thyfwyr wrth iddynt ddechrau ar gyfnod o newid sylweddol y tu allan i'r UE. Mae hyn yn cynnwys helpu ffermwyr a thyfwyr i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd o leihau allyriadau carbon, cymryd rhan mewn rheoli tir amgylcheddol, a gwella cystadleurwydd a chynhyrchiant. Wrth inni drafod bargeinion masnach newydd ledled y byd, bydd yr AHDB hefyd yn chwarae rhan fwyfwy pwysig wrth helpu ffermwyr a thyfwyr i gael mynediad i farchnadoedd newydd gan wneud gwaith pwysig i ddatblygu marchnadoedd allforio yn ogystal â marchnata a hyrwyddo domestig.

Strwythur llywodraethu a chyfeiriad strategol newydd i'r AHDB

3.4 Mewn ymateb i adborth y diwydiant ar y Cais am Safbwyntiau ac argymhellion Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, mae'r AHDB wedi dechrau rhaglen fawr o newid i sicrhau ei fod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon sy'n addas i ateb anghenion sy'n esblygu ymysg y rhai a fydd yn talu ardollau yn y dyfodol. Yn haf 2020, sefydlodd yr AHDB Grŵp Adolygu Llywodraethiant i gynnal gwerthusiad o strwythurau llywodraethu'r AHDB sy'n gosod y strategaeth a'r cyllidebau ac yn monitro perfformiad, gan gynnwys y prif fwrdd, y byrddau sector a'r pwyllgorau. Cynhaliwyd adolygiad allanol annibynnol o effeithiolrwydd y bwrdd hefyd. Arweiniodd hyn at newidiadau arwyddocaol gan ddod â phrif fwrdd sy'n seiliedig ar sgiliau i mewn. Mae hyn yn gyson ag arferion llywodraethu da a bydd hefyd yn sicrhau bod gan y sefydliad yr ehangder o wybodaeth a sgiliau'r diwydiant sy'n angenrheidiol i ategu cyfeiriad strategol newydd a heriau'r dyfodol.

3.5 Yn dilyn ymarfer recriwtio diweddar ar gyfer aelodau o'r Bwrdd, mae cyfansoddiad prif fwrdd yr AHDB wedi newid fel bod y Cadeirydd anweithredol annibynnol yn cael ei gefnogi gan naw aelod bwrdd y mae o leiaf 50% ohonynt yn dalwyr ardollau cyfredol, neu ddiweddar. Mae holl aelodau'r Bwrdd wedi'u recriwtio oherwydd eu sgiliau

arbenigol i sicrhau bod o leiaf pum aelod yn dod â gwybodaeth am y diwydiant sy'n berthnasol i'r sectorau sy'n talu ardollau ac mae yna arbenigedd hefyd mewn meysydd penodol fel materion amgylcheddol, data a thystiolaeth, marchnata, ymchwil, allforion, mynediad i'r farchnad, ymgysylltu â chwsmeriaid, cyllid a newid gweddnewidiol. Mae gwella amrywiaeth a chynwysoldeb y bwrdd a rhychwant daearyddol priodol hefyd yn ystyriaethau pwysig.

3.6 Dros y misoedd nesaf, bydd yr AHDB yn parhau â diwygiadau i weddill ei strwythurau llywodraethu i symud y broses o wneud penderfyniadau yn ôl ar sail sector gyda llawer mwy o fewnbwn gan dalwyr ardollau. Bydd hyn yn cynnwys newidiadau yn y byrddau sector a strwythurau'r paneli a chyflwyno pleidleisiau rheolaidd ymysg talwyr ardollau ynghylch rhaglenni gwaith arfaethedig y sectorau a chyfarfodydd agored blynyddol. Y nod yw sicrhau ymgysylltu dwyffordd mwy effeithiol â'r rhai sy'n talu ardollau wrth bennu rhaglenni gwaith y sectorau a chyfraddau'r ardollau. Mae'r AHDB wedi ymrwmo i gyflwyno'r system newydd hon o bleidleisio'n rheolaidd ar raglenni gwaith pum-mlynedd i'r sectorau am y tro cyntaf yng ngwanwyn 2022 a bydd yn annog pob talwr ardoll i gofrestru i bleidleisio a chymryd rhan o hydref 2021 ymlaen.

3.7 Bwriad y newidiadau hyn yw cynyddu atebolrwydd tuag at dalwyr ardoll a mewnbwn ganddyn nhw, gan sicrhau llais cryfach byth a sicrhau bod anghenion penodol y sectorau'n cael eu diwallu. Bydd hyn yn rhoi llawer mwy o ddylanwad i dalwyr ardollau dros y rhaglenni yn eu sector nhw a faint o ardoll a godir. Mae dull mwy cynhwysol a democrataidd o ymgysylltu â thalwyr ardollau yn cael ei gyflawni drwy'r newidiadau strwythurol hyn a newid diwylliant yr AHDB, ynghyd â mwy o dryloywder ynghylch costau.

Canlyniad pleidleisiau'r sectorau garddwriaeth a thatws

3.8 Ym mis Ionawr a Chwefror 2021, cyn i'r diwygiadau i strwythurau llywodraethu'r AHDB a amlinellir uchod fynd rhagddynt yn llawn, defnyddiodd nifer o dalwyr ardollau yn y sectorau garddwriaeth a thatws ddarpariaethau o dan Orchymyn yr AHDB i sbarduno pleidlais ynghylch a ddylai'r ardoll barhau (gellir sbarduno pleidlais os ceir ceisiadau gan o leiaf 5% o dalwyr ardollau yn y sector dros gyfnod treigl o dri mis). Daeth y bleidlais garddwriaeth i ben ar 10 Chwefror 2021, pleidleisiodd 69% o dalwyr ardollau garddwriaeth a phleidleisiodd 61% o'r rhai a fwriodd bleidlais "na" i barhau â'r ardoll. Daeth y bleidlais ar yr ardoll tatws i ben ar 17 Mawrth 2021, pleidleisiodd 64% o dalwyr ardoll tatws a phleidleisiodd 66% o'r rhai a fwriodd bleidlais "na" i barhau â'r ardoll.

3.9 Er bod canlyniad cyffredinol y pleidleisiau yn y ddau sector hyn yn amlwg o blaid dod â'r ardoll i ben, mae dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r bleidlais (gweler Atodiad 1) ac adborth a gafodd Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig oddi wrth y rhanddeiliaid ers y bleidlais wedi tynnu sylw at wahaniaethau barn rhwng gwahanol rannau o'r diwydiant. Mae garddwriaeth yn sector amrywiol iawn sy'n cynnwys rhyw 300 o wahanol gynhyrchion gyda nifer o gynhyrchwyr mawr iawn sydd, gyda'i gilydd, yn tyfu'r rhan fwyaf o'r ffrwythau a llysiâu a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr ochr yn ochr â rhestr hir iawn o fusnesau bach a chanolig. Mae rhai o wasanaethau'r AHDB yn dal i

gael eu gwerthfawrogi gan rai is-sectorau ac efallai y byddant am i'r rhain barhau yn y dyfodol. Er enghraifft, pleidleisiodd y sectorau ffrwythau, ffrwythau meddal a madarch uchaf i gadw'r ardoll, tra pleidleisiodd sectorau eraill fel llysiau di-gae, addurniadau a bwytadwy a ddiogelir i ddod â'r ardoll i ben. Yn y bleidlais yn y sector tatws, pleidleisiodd prynwyr tatws bach a chanolig (y rhai sy'n talu llai na £5,000 o ardoll y flwyddyn) yn bennaf dros atal yr ardoll a phleidleisiodd y prynwyr mwyaf dros ei chadw, tra pleidleisiodd tyfwyr tatws yn bennaf i atal yr ardoll.

3.10 I ymateb i ganlyniad pleidleisiau'r sector garddwriaeth a'r sector tatws a rhoi diwygiadau sy'n deillio o'r Cais am Safbwyntiau ar waith, mae Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn bwriadu diwygio Gorchymyn yr AHDB i ddarparu fframwaith deddfwriaethol diwygiedig sy'n gosod cyfeiriad newydd i'r AHDB. Mae Adran pedwar o'r ymgynghoriad hwn (isod) yn nodi pob un o'n newidiadau deddfwriaethol arfaethedig er mwyn ichi roi'ch barn chi. Ein nod yw gweithredu'r diwygiadau hyn fel eu bod yn dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf ym mis Ebrill 2022.

4 Cynigion ar gyfer diwygiadau â blaenoriaeth yng Ngorchymyn yr AHDB

Nodau polisi

4.1 Nodau polisi'r diwygiadau arfaethedig yng Ngorchymyn yr AHDB yw:

- Parchu canlyniad y pleidleisiau diweddar yn y sectorau garddwriaeth a thatws ym Mhrydain Fawr drwy ddod â'r ardollau statudol yn y ddau sector hyn i ben o ddechrau'r flwyddyn ariannol yn 2022.
- Gwellu'r atebolrwydd tuag at dalwyr ardollau yn y sectorau eraill drwy ddyletswydd newydd ar yr AHDB i gynnal pleidlais bob pum mlynedd ynghylch rhaglenni gwaith y sectorau, gan nodi sut y caiff yr ardoll ei gwario. Mae'r AHDB wedi ymrwymo i gyflwyno'r pleidleisiau cyntaf ar raglenni gwaith sectorau yng Ngwanwyn 2022.
- Rhoi mwy o hyblygrwydd yn y dyfodol i'r AHDB ddarparu gwasanaethau (lle mae diwydiant yn gofyn amdanynt) i sectorau amaethyddol eraill nad ydynt yn talu ardollau a hynny ar sail ardoll fasnachol neu wirfoddol. Dim ond pan geir cais gan ddiwydiant am wasanaethau gan yr AHDB y bydd hyn yn digwydd a phan fo Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cytuno y ceir manteision.
- Creu mwy o hyblygrwydd i wasanaethau ychwanegol (megis datblygu'r farchnad allforio) gael eu darparu gan yr AHDB (os gofynnir amdanynt) i sector defaid Lloegr drwy ganiatáu cyfradd ardoll uwch yn y sector hwn yn Lloegr.

Dyfodol yr ardollau garddwriaeth a thatws ym Mhrydain Fawr

- 4.2 Ar hyn o bryd, mae Gorchymyn yr AHDB yn dweud bod rhaid i'r AHDB osod ardoll orfodol ar unrhyw un sy'n tyfu cynnyrch garddwriaeth ym Mhrydain Fawr pan fo ganddynt ffigur gwerthiant wedi'i addasu'n flynyddol o dros £60,000 ac ar unrhyw un sy'n tyfu tri hectar neu fwy o datws bob blwyddyn ym Mhrydain Fawr. Yn achos y sector tatws mae yna ardoll hefyd ar brynwyr, h.y. proseswyr a chyfanwerthwyr. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21, darparodd yr ardoll ryw £7.59 miliwn o incwm o'r sector garddwriaeth a £5.67 miliwn o incwm o'r sector tatws, gan ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau AHDB megis cyfnewid gwybodaeth, ymchwilio a datblygu cymhwysol a gweithgareddau datblygu a marchnata ar gyfer y sectorau hyn.
- 4.3 Dangosodd canlyniadau'r pleidleisiau diweddar yn y sectorau garddwriaeth a thatws nad yw'r mwyafrif mawr o dalwyr ardollau yn y sectorau hyn bellach yn fodlon bod gwasanaethau'r AHDB yn rhoi gwerth am arian ac maen nhw wedi dangos yn gyffredinol nad ydynt am i'r ardoll barhau. Pleidleisiodd 61% o dalwyr ardollau a bleidleisiodd ym mhleidlais y sector garddwriaeth a 66% o'r rhai a bleidleisiodd ym mhleidlais y sector tatws "na" i barhau â'r ardoll statudol yn eu priod sectorau. Er bod canlyniad cyffredinol y pleidleisiau yn y sectorau hyn yn dangos nad yw'r mwyafrif mawr o dalwyr yr ardollau am i'r ardoll barhau, mae'r dadansoddiad manwl o'r canlyniadau (gweler Atodiad 1) ac adborth gan randdeiliaid yn y sectorau hyn ers y bleidlais, wedi tynnu sylw at ystod amrywiol o safbwyntiau ac fe bleidleisiodd rhai is-sectorau megis ffrwythau brig, ffrwythau meddal a madarch dros gadw'r ardoll.
- 4.4 **Cynnig 1:** I barchu canlyniad cyffredinol y pleidleisiau diweddar, rydym yn bwriadu diwygio Gorchymyn yr AHDB i ddileu dyletswydd yr AHDB i osod ardoll statudol yn sectorau garddwriaeth a thatws Prydain Fawr ac i ddileu'r mecanweithiau perthynol ynglŷn â'r ardollau garddwriaeth thatws o Orchymyn yr AHDB. Bydd hyn yn dod â'r ardollau statudol ar eu ffurf bresennol i ben yn y ddau sector hyn o ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Rydym yn derbyn nad yw'r ddau sector hyn yn credu bod yr un dull presennol o ymdrin â'r ardoll statudol yn optimaidd ar gyfer eu hanghenion amrywiol. Fodd bynnag, mae angen cydweithio ar draws y diwydiant o hyd - gan gynnwys ym maes ymchwil a datblygu. Felly, rydym yn parhau i fod yn agored i archwilio cynigion a arweinir gan y diwydiant o unrhyw rannau o'r sectorau garddwriaeth a thatws, neu gan unrhyw ddiwydiannau amaethyddol eraill, a allai weld gwerth mewn gweithio gyda'r AHDB drwy fecanwaith ardoll statudol yn y dyfodol.
- 4.5 Hoffem hefyd dynnu sylw at y ffaith y caiff unrhyw grŵp o dyfwyr gytuno i dalu ardoll wirfoddol i ariannu ymchwil gymhwysol neu weithgareddau eraill unrhyw bryd (gellir gwneud hyn nawr neu unrhyw bryd yn y dyfodol a does dim angen newid y ddeddfwriaeth). Gellid gwneud hyn drwy weithio gyda'r AHDB neu drwy weithio gyda sefydliadau eraill neu drwy sefydlu eu strwythur llywodraethu eu hunain i drefnu, casglu a chyflwyno rhaglen wirfoddol o ardollau. Ceir sawl sector eisoes lle mae ardollau gwirfoddol yn gweithio'n llwyddiannus, er enghraifft y Sefydliad Ymchwil Proseswyr a

Thyfwyr (PGRO) sy'n darparu gwasanaethau i'r sector pys a ffa yn bennaf. Hefyd, gallai unrhyw rannau o'r sectorau garddwriaeth neu datws ym Mhrydain Fawr ddewis gweithio gyda'r AHDB yn y dyfodol drwy drefniant contract masnachol i ddarparu gwasanaethau neu weithgareddau ymchwil lle ceir galw am hyn o du'r diwydiant a lle mae Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cytuno y ceid manteision.

4.6 Yn hanesyddol, mae'r ardoll AHDB wedi ariannu ymchwil a datblygu cymhwysol yn bennaf yn y sectorau garddwriaeth a thatws ym Mhrydain Fawr. Mae'r cynnig i roi terfyn ar yr ardollau statudol ar eu ffurf bresennol yn golygu na fydd hyn yn wir mwyach gan fod gweithgareddau'r AHDB yn y ddau sector hyn yn parhau i gael eu dirwyn i ben. Ni fydd cyllid y sector cyhoeddus, gan gynnwys drwy gyllideb y fferm yn Lloegr, yn talu am ymchwil na champau eraill a oedd, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael eu hariannu, drwy fuddsoddi mewn ardollau. Felly, mae'n hanfodol bod diwydiannau ar draws y ddau sector hyn yn darparu arweinyddiaeth a llunio modelau ariannu newydd a arweinir gan y diwydiant sy'n fwy addas i'w hanghenion ac a fydd yn galluogi cydweithio ar draws y diwydiant i ddarparu ymchwil, datblygu a gweithgareddau eraill â blaenoriaeth i gefnogi eu busnesau yn y dyfodol. Gallai hyn fod drwy ardoll wirfoddol, modelau tanysgrifio, neu gytundebau masnachol gydag AHDB neu gyda sefydliadau addas eraill sy'n gallu cydlynu a darparu gwasanaethau ymchwil cymhwysol neu flaenoriaethau eraill. Yn ogystal, ac fel y nodwyd uchod, rydym yn parhau i fod yn agored i archwilio cynigion a arweinir gan y diwydiant ar gyfer ardoll statudol newydd o unrhyw rannau o'r diwydiant i ariannu ymchwil AHDB penodol neu wasanaethau eraill yn y dyfodol.

4.7 Mae hefyd yn bwysig amlygu'r ffaith bod 34 o sefydliadau cynhyrchwyr (POs) yn cael eu cydnabod yng Nghynllun Cymorth Ffrwythau a Llysiau'r UE yn y DU, sy'n derbyn tua £40 miliwn y flwyddyn mewn arian cyfatebol gan Lywodraeth y DU. Mae llawer o'r sefydliadau hyn yn cynnal prosiectau ymchwil gymhwysol pwysig yn eu rhaglenni gweithredol. Rydym yn awyddus i annog mwy o bobl i fanteisio ar weithgareddau ymchwilio a datblygu gan y POs a byddwn yn gweithio gyda'r POs i benderfynu sut y gallwn barhau i'w helpu i wneud y gwaith pwysig hwn. Byddwn yn archwilio'r opsiwn hwn ymhellach wrth inni gau cynllun presennol yr UE a gweithio gyda'r sector garddwriaeth i ystyried pa gymorth y mae arno ei angen i'w alluogi i barhau i ffynnu.

4.8 Mae'n werth nodi hefyd fod adran 87 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn galluogi unrhyw un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig i sefydlu corff ardollau ar wahân i ddarparu gwasanaethau i sectorau amaethyddol neu arddwriaethol yn eu gwlad unrhyw bryd, os ydyn nhw'n dymuno, pan geir galw gan y diwydiant am hyn yn eu gwlad.

Trefniadau trosiannol yn 2021/22 a 2022/23

4.9 Yn y tymor byr yn ystod 2021/22 a 2022/23 bydd nifer cyfyngedig o weithgareddau penodol yr AHDB yn parhau yn sectorau garddwriaeth a thatws Prydain Fawr ar sail drosiannol. Mae hyn yn cynnwys cwblhau prosiectau ymchwil sydd eisoes ar y gweill

ac sydd eisoes wedi'u hariannu a gwasanaeth trosiannol i'r AHDB barhau i ddarparu ceisiadau am Awdurdodiadau Brys (EAs) ac Estyniadau Awdurdod ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMUs) i blaladdwyr yn sector garddwriaeth Prydain Fawr (a ariennir drwy gronfeydd wrth gefn).

4.10 4. 10 Ar hyn o bryd, mae tua 70% o'r EAs ac EAMUs yn cael eu sicrhau gan yr AHDB sy'n rhoi mynediad oddi ar y label i dyfwyr i ffwngladdwyr, chwynladdwyr, pryfladdwyr, acaricidau, rheoleiddwyr twf planhigion a thriniaethau hadau ar gyfer cnydau lle nad yw gweithgynhyrchwyr plaladdwyr wedi gwneud proses ardystio lawn. Mae'r AHDB yn gwneud rhwng 80 a 100 o geisiadau i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bob blwyddyn am EAs ac EAMUs i'w defnyddio yn y sector garddwriaeth ledled Prydain Fawr yn bennaf. Disgwylir i'r nifer hwn godi yn y blynyddoedd nesaf, yn sgil gostyngiad yn y sylweddau gweithredol sydd ar gael. Mae darparu dilyniant ar gyfer gwasanaeth ceisiadau EAs/EAMUs yr AHDB yn y tymor byr yn ymateb i adborth gan rai rhannau o'r diwydiant bod gwasanaeth ceisiadau EAs/EAMUs yr AHDB yn bwysig iawn i'w busnes. Rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer ateb tymor hwy ar gyfer ariannu gwasanaeth ceisiadau EAs/EAMUs yr AHDB yn barhaus o 2023/24 ymlaen ac mae gennym ddiddordeb ym marn y diwydiant ar hyn (gweler cwestiynau 12 ac 13 isod).

C10. A ddylai Gorchymyn yr AHDB gael ei ddiwygio i ddileu'r ardoll statudol yn y sector garddwriaeth ym Mhrydain Fawr?

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn gymwys
- Rhowch unrhyw sylwadau i ategu'ch dewis

C11. A ddylai Gorchymyn yr AHDB gael ei ddiwygio i ddileu'r ardoll statudol yn y sector tatws ym Mhrydain Fawr?

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn gymwys
- Rhowch unrhyw sylwadau i ategu'ch dewis

C12. Hoffech chi weld y gwasanaeth ymgeisio AHDB ar gyfer awdurdodi ac ymestyn awdurdodiad brys ar gyfer mân ddefnydd o blaladdwyr ar gyfer y sector garddwriaeth ym Mhrydain Fawr yn parhau? (EA/EAMU gwasanaeth ymgeisio)?

- Hoffwn
- Na hoffwn
- Ddim yn siŵr
- Ddim yn gymwys
- Rhowch unrhyw sylwadau i ategu'ch dewis

C13. Os ydych am i wasanaeth ymgeisio'r AHDB am awdurdodiadau brys i blaladdwyr ar gyfer y sector garddwriaeth ym Mhrydain Fawr barhau, a oes gennych farn ac awgrymiadau ar sut y dylid ei ariannu? Rhowch sylwadau isod.

Pleidlais reolaidd i dalwyr ardollau

4.11 Ar hyn o bryd, mae Gorchymyn yr AHDB yn darparu y caiff yr AHDB gynnal pleidlais unrhyw bryd ynghylch a ddylai ardoll barhau ai peidio, bod rhaid iddo wneud hynny os caiff ei gyfarwyddo gan yr awdurdod priodol, a bod rhaid iddo wneud hynny os yw'n cael ceisiadau am bleidlais a lofnodwyd gan o leiaf 5% o bersonau sydd â hawl i bleidleisio mewn pleidlais a hynny mewn cyfnod treigl o dri mis.

4.12 Dangosodd yr ymatebion i'r Cais am Safbwyntiau yn 2018 gefnogaeth gref i bleidlais reolaidd i dalwyr ardollau o leiaf unwaith bob pum mlynedd ac awydd am lawer mwy o gyfranogiad a llais ynglŷn â chyfeiriad gweithgareddau'r AHDB yn y dyfodol, gan gynnwys sut y caiff arian talwyr ardollau ei wario. Hefyd, yn sgil canlyniadau'r bleidlais ddeuaidd 'ie/na' ar barhad yr ardoll yn y sectorau garddwriaeth a thatws, mae adborth gan randdeiliaid yn y sectorau eraill sy'n talu ardollau wedi dangos y byddai dull mwy cynnil, a hwnnw'n galluogi talwyr ardollau i bleidleisio ar flaenoriaethau ar draws ystod o weithgareddau a ariennir gan ardollau, yn fwy defnyddiol a phriodol yn y dyfodol.

4.13 Mewn ymateb i'r adborth hwn, mae Llywodraeth y DU, y Gweinyddiaethau Datganoledig a'r AHDB wedi ymrwymo i ddarparu dull newydd o weithredu o wanwyn 2022 ymlaen, gan roi cyfle i dalwyr ardollau bleidleisio ar y gwaith a wnaiff yr AHDB gydag arian yr ardollau o bob sector. Bydd hyn yn caniatáu i bob talwr ardoll gael dylanwad uniongyrchol o ran nodi'r heriau sy'n wynebu eu sectorau, y rhaglenni eang o waith a ariennir gan yr ardollau a gynigir i fynd i'r afael â'r rhain a'r opsiwn o bleidleisio'n fanylach ar gynhyrchion a gwasanaethau unigol. Bydd y canlyniadau'n darparu tystiolaeth i lywio penderfyniadau gan Fyrddau Sector yr AHDB ar yr hyn sydd fwyaf gwerthfawr i'w sector. Yr hydref hwn, bydd yr AHDB yn gofyn i fusnesau sy'n talu ardoll gofrestru ac enwebu'r sawl a fydd yn pleidleisio ar eu rhan, cyn pleidleisio yng ngwanwyn 2022 ar y gweithgareddau a'r blaenoriaethau y maent am weld yr AHDB yn eu cyflawni. Bydd yr AHDB yn cyhoeddi rhagor o fanylion am y broses bleidleisio newydd hon yn gynnar yn hydref 2021.

4.14 **Cynnig 2:** I gyflawni'r ymrwymiad hwn a rhoi llais rheolaidd i dalwyr ardollau yn y dyfodol ar yr hyn y mae'r ardoll yn cael ei wario arno, byddwn yn diwygio'r darpariaethau yn Erthygl 11 o Orchymyn yr AHDB i nodi bod rhaid iddo gynnal pleidlais o leiaf unwaith bob pum mlynedd ar gynigion ynghylch sut y caiff yr ardoll ei gwario ym mhob un o'r sectorau sy'n talu ardollau. Bydd yr AHDB yn ymgysylltu'n rheolaidd â thalwyr ardollau i gasglu adborth ar flaenoriaethau a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu rhaglenni gwaith pum-mlynedd i bob sector ac yn sicrhau eu bod yn ymateb i anghenion talwyr ardollau. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, mae'r AHDB wedi ymrwymo i gynnal y bleidlais reolaidd newydd hon ar raglenni gwaith pum-mlynedd i'r sectorau am y tro cyntaf yn 2022 a bydd yn gweithio gyda'r sectorau i ddatblygu prosesau pleidleisio newydd i alluogi hyn ac yn annog holl dalwyr yr ardollau i gofrestru i bleidleisio a chymryd rhan. Hefyd, mae'r AHDB wedi ymrwymo i ymgysylltu bob blwyddyn â thalwyr ardollau er mwyn iddyn nhw adolygu a phleidleisio'n fwy cyson ar flaenoriaethau ac er mwyn i raglenni gwaith gael eu haddasu yn unol â hynny.

4.15 Mae'r diwygiadau hyn yn rhoi mwy o gyfle i dalwyr ardollau lunio a phleidleisio ar y blaenoriaethau yr hoffent eu gweld yn cael eu cyflawni a ddylai sicrhau bod yr AHDB yn ateb anghenion talwyr ardollau yn y dyfodol ac yn sicrhau gwerth am arian. Ond, os nad yw hyn yn digwydd, mae'n bwysig i dalwyr ardollau gadw eu hawliau presennol o dan y ddeddfwriaeth i ofyn am bleidlais ynghylch a ddylid parhau â'r ardoll os oes anfodlonrwydd eang ar y rhaglen waith bum-mlynedd ar gyfer unrhyw sector. Gan hynny, rydym yn cynnig y dylai'r ddarpariaeth bresennol sy'n caniatáu i bleidlais gael ei sbarduno gan o leiaf 5% o bersonau sydd â hawl i bleidleisio ynghylch a ddylai'r ardoll barhau aros yng Ngorchymyn yr AHDB. Fel ar hyn o bryd, bydd y penderfyniadau

terfynol ar yr ardoll yn dal yn nwylo'r awdurdod priodol⁴ (sef y Gweinidogion yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, fel y bo'n briodol).

4.16 Yn ychwanegol, rydym yn cynnig dirymu'r darpariaethau yn Erthygl 11(6) o Orchymyn yr AHDB a roddwyd ar waith yn 2008 i atal pleidlais rhag digwydd ym mlynnyddoedd cynnar yr AHDB h.y. cyn mis Ebrill 2012 gan nad yw hyn bellach yn berthnasol nac yn angenrheidiol.

C14. A ddylai Gorchymyn yr AHDB gael ei ddiwygio i sicrhau y gall talwyr ardollau bleidleisio ar gynigion ar gyfer sut y caiff yr ardoll ei gwario yn eu sector o leiaf unwaith bob pum mlynedd?

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn gymwys
- Rhowch unrhyw sylwadau i ategu'ch dewis

C15. A ddylai Gorchymyn yr AHDB gadw'r ddarpariaeth bresennol bod rhaid cynnal pleidlais ynghylch a ddylid parhau i gynnal yr ardoll os derbynnir ceisiadau am bleidlais gan o leiaf 5% o bleidleiswyr cymwys o fewn cyfnod treigl o dri mis?

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn gymwys

⁴ Mae Erthygl 96(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (y Ddeddf) yn diffinio'r awdurdod priodol fel a ganlyn: (a) mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â Lloegr yn unig, yr Ysgrifennydd Gwladol; (b) mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â Chymru yn unig, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; (c) mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'r Alban yn unig, Gweinidogion yr Alban; (d) mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon yn unig, yr adran berthnasol yng Ngogledd Iwerddon; (e) mewn perthynas â'r materion a grybwyllir yn is-adran (2), yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu gyda chymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban neu (yn ôl y digwydd) yr adran berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Mae Erthygl 96(2) o'r Ddeddf yn nodi mai'r materion y cyfeirir atynt yw: (a) gwneud gorchymyn adran 87 sy'n sefydlu bwrdd sydd â swyddogaethau trawsffiniol; (b) gwneud gorchymyn o dan adran 91 neu 92 yn diddymu corff ardollau presennol neu fwrdd o'r fath; (c) penodi i fwrdd o'r fath neu arfer pwerau eraill mewn perthynas â swyddogaeth drawsffiniol bwrdd.

- Rhowch unrhyw sylwadau i ategu'ch dewis

Ymestyn rychwant Gorchymyn yr AHDB

4.17 Ar hyn o bryd mae Gorchymyn yr AHDB yn cyfyngu gweithrediadau a gweithgareddau'r AHDB i'r chwe sector sy'n talu ardoll statudol sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn rychwant y gorchymyn, sef:

- y diwydiant cig eidion a defaid yn Lloegr;
- y diwydiannau grawnfwyd a had olew yn y Deyrnas Unedig;
- y diwydiant garddwriaeth ym Mhrydain Fawr;
- y diwydiant llaeth (llaeth buchol) ym Mhrydain Fawr;
- y diwydiant moch yn Lloegr; a'r
- diwydiant tatws ym Mhrydain Fawr.

4.18 Mae hyn yn golygu nad yw'r AHDB yn cael darparu unrhyw wasanaethau neu weithgareddau i sectorau amaethyddol eraill ar hyn o bryd hyd yn oed os oes galw am hynny o du'r diwydiant a lle y câi ei ariannu drwy gytundeb ardoll gwirfoddol, cytundeb ariannu masnachol, neu lle gallai'r AHDB fod yn gorff cyflenwi posibl ar gyfer cynllun grant a gâi ei ariannu'n gyhoeddus i sectorau eraill.

4.19 **Cynnig 3:** Mae darparu'r hyblygrwydd i'r AHDB ddarparu gwasanaethau i sectorau amaethyddol eraill, er enghraifft y sector dofednod, ar sail fasnachol neu wirfoddol neu drwy bartneriaeth â sefydliadau neu gyrff ardollau eraill, yn debygol o ddod yn fwyfwy pwysig dros y blynyddoedd nesaf wrth i bob sector wynebu newidiadau sylweddol. Er mwyn caniatáu ar gyfer hyn, rydym yn bwriadu diwygio Erthygl 2 o Orchymyn yr AHDB i ymestyn rychwant y Gorchymyn i gynnwys unrhyw ddiwydiant amaethyddol neu berthynol arall yn y DU yn ogystal â'r sectorau hynny sydd eisoes wedi'u rhestru yng Ngorchymyn yr AHDB (sef y rhai a nodir ym mharagraff 4.17 uchod). Bydd hyn yn galluogi'r AHDB i ymateb i anghenion strategol pob ffermwr a thyfwr yn y DU yn y dyfodol lle ceir galw o du'r diwydiant iddyn nhw wneud hynny a lle mae Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cytuno y ceid manteision. Byddai gwasanaethau'r AHDB a ddarperid i ddiwydiannau amaethyddol eraill yn cael eu hariannu drwy drefniadau masnachol neu ar sail ardoll wirfoddol neu'n cael eu darparu drwy drefniant partneriaeth y cytunid arno gyda chorff neu sefydliad ardollau arall. Mae'n bwysig nodi na fwriedir i'r cynnig hwn ganiatáu i ardoll statudol arall gael ei rhoi ar waith mewn sectorau amaethyddol eraill, ac na fydd yn gwneud hynny.

4.20 Rydyn ni hefyd yn bwriadu diwygio Erthygl 8 o Orchymyn yr AHDB i egluro y caiff yr AHDB godi tâl am unrhyw wasanaethau y gall eu darparu yn y dyfodol i unrhyw ddiwydiant sydd o fewn rychwant Gorchymyn yr AHDB p'un a ydyn nhw mewn sectorau sy'n talu ardollau neu sectorau nad ydyn nhw'n talu ardollau. Mae'r eglurhad hwn yn bwysig gan ei fod yn galluogi unrhyw ddiwydiant o fewn rychwant y Gorchymyn i gcontractio gyda'r AHDB i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau penodol lle maent yn dymuno gwneud hynny ar sail fasnachol yn y dyfodol.

4.21 Mae gan yr AHDB berthynas waith agos â sefydliadau ardollau yn y Gweinyddiaethau Datganoledig gan gynnwys Hybu Cig Cymru (HCC), Quality Meat Scotland (QMS) a Chomisiwn Da Byw a Chig Gogledd Iwerddon (LMCNI). Lle ceir manteision o gydweithio o ran rhannu arbenigedd neu ddarparu gwerth ychwanegol, mae'r sefydliadau ardollau yn cydweithio. Ond ceir dealltwriaeth glir hefyd rhwng y sefydliadau ardollau hyn am y gweithgareddau a'r gwasanaethau y mae'n rhaid i bob corff ardollau unigol eu darparu er budd y diwydiannau yn eu priod wledydd. Bydd hyn yn dal yn wir yn y dyfodol. Ni fydd ehangu rychwant Gorchymyn yr AHDB i gynnwys sectorau amaethyddol eraill yn newid hyn ac ni fydd yr AHDB yn cynnig gwasanaethau i sectorau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd eisoes yn cael eu gwasanaethu gan gorff ardollau heblaw drwy drefniant partneriaeth y cytunir arno lle mae'n gwneud synnwyr i gyrff ardollau gydweithio.

C16. A ddylai cwmpas Gorchymyn yr AHDB gael ei ymestyn i gynnwys diwydiannau amaethyddol neu berthynol eraill yn y DU fel y gall yr AHDB gynnig gwasanaethau iddynt (lle gofynnir amdanynt gan y ddiwydiant)?

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn siŵr
- Ddim yn gymwys
- Rhowch unrhyw sylwadau i ategu'ch dewis

C17. A ddylai Gorchymyn yr AHDB gael ei ddiwygio i egluro y caiff yr AHDB godi tâl am wasanaethau a ddarperir i unrhyw ddiwydiant sydd o fewn rychwant y Gorchymyn drwy gytundeb masnachol?

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn siŵr

- Ddim yn gymwys
- Rhowch unrhyw sylwadau i ategu'ch dewis

Newid yn hyblygrwydd cyfraddau'r ardoll yn sector defaid Lloegr

4.22 Ar hyn o bryd, mae Gorchymyn yr AHDB yn diffinio'r mecanweithiau ar gyfer casglu'r ardoll ym mhob sector ac yn pennu'r cyfraddau ardoll uchaf y gellir eu codi ym mhob sector. Yn sector defaid Lloegr, mae'r ardollau a godir ar hyn o bryd i ariannu'r gwasanaethau a ddarperir eisoes ar y gyfradd uchaf a ganiateir o dan Orchymyn yr AHDB (nodir y cyfraddau uchaf presennol yng ngholofn dau yn y tabl isod). Mae hyn yn golygu nad oes hyblygrwydd yn y dyfodol i godi'r ardoll pe bai'r sector defaid am wneud hynny. Ar y llaw arall, mae gan y sectorau cig eidion a moch ryw 25% i 29% o hyd rhwng cyfradd bresennol yr ardoll sy'n cael ei chodi a'r gyfradd uchaf a ganiateir, sy'n caniatáu cynnydd posibl yng nghyfradd yr ardollau yn y dyfodol lle mae'r sector wedi gweld yr angen ac yn gofyn am i wasanaethau ychwanegol gael eu darparu.

4.23 **Cynnig 4:** Nid cynnig i godi ardoll defaid Lloegr yw hwn. Mae'n gynnig i ganiatáu mwy o hyblygrwydd. Drwy hynny, os bydd talwyr ardollau yn y sector defaid yn Lloegr yn y dyfodol am i'r AHDB ddarparu gweithgareddau ychwanegol (fel gweithgarwch datblygu allforio ychwanegol i agor marchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch defaid) byddai hyn yn bosibl drwy godi'r gyfradd ardoll uchaf a ganiateir ar gyfer pob un o gategoriâu sector defaid Lloegr. Yn ychwanegol, mae chwyddiant blynyddol yn lleihau pŵer prynu'r ardoll, a heb unrhyw allu i gynyddu cyfradd yr ardoll defaid mae gwir werth yr ardoll a godir yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn. Felly, rydym yn bwriadu cynyddu'r gyfradd ardoll uchaf a ganiateir y pen ar gyfer pob un o gategoriâu ardollau defaid Lloegr 25% fel y nodir yng ngholofn 3 o'r tabl isod i greu mwy o hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau ychwanegol os oes angen amdanyn nhw a chefnogaeth iddyn nhw yn y sector yn y dyfodol.

4.24 Fel y nodir yng nghynnig dau (ym mharagraff 4.14 uchod) yn y sector defaid yn Lloegr yn 2022, bydd cyfle i bleidleisio ar gynigion a blaenoriaethau wedi'u costio ar gyfer sut y caiff yr ardoll ei gwario yn eu sector yn y dyfodol. Dim ond os yw talwyr ardollau wedi nodi drwy'r broses bleidleisio eu bod am i wasanaethau ychwanegol neu wasanaethau estynedig gael eu darparu ar ben y gwasanaethau presennol y byddai angen gwneud unrhyw gynnydd yng nghyfradd yr ardoll. Os oes modd talu cost darparu gwasanaeth newydd neu estynedig drwy ostyngiadau mewn manau eraill, efallai na fydd angen cynnydd yng nghyfradd yr ardoll. Yn y pen draw, dim ond os caiff ei gymeradwyo gan y Gweinidogion y caniateir gweithredu unrhyw gynnydd yng nghyfradd yr ardoll.

4.25 Mae'n bwysig nodi mai dim ond i'r sector Defaid yn Lloegr y mae'r cynnig hwn yn gymwys. Mae gan y Gweinyddiaethau Datganoledig drefniadau ar wahân ar gyfer ardollau a gwasanaethau a ddarperir yn eu sectorau cig coch nhw gan gynnwys drwy: Hybu Cig Cymru (HCC), Quality Meat Scotland (QMS) a Chomisiwn Da Byw a Chig Gogledd Iwerddon (LMCNI).

1. Categori'r ardoll yn Lloegr	2. Cyfradd uchaf yr ardoll am bob pen ar hyn o bryd	3. Cyfradd uchaf yr ardoll am bob pen a gynigir
Cynhyrchydd defaid o Loegr	£0.60	£0.75
Lladdwr defaid o Loegr	£0.20	£0.25
Allforiwr defaid o Loegr	£0.20	£0.25

C18. A ddylai Gorchymyn yr AHDB gael ei ddiwygio i gynyddu'r cyfraddau ardoll uchaf a ganiateir yn sector defaid Lloegr 25% i roi mwy o hyblygrwydd i'r AHDB ddarparu gwasanaethau ychwanegol os oes galw am hyn gan sector defaid Lloegr yn y dyfodol?

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn gymwys
- Rhwch unrhyw sylwadau i ategu'ch dewis

5 Diwygio Gorchymyn yr AHDB yn y dyfodol

5.1 Y cynigion uchod yw'r diwygiadau yng Ngorchymyn yr AHDB y mae angen eu rhoi ar waith fel blaenoriaeth i sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyfeiriad strategol newydd i'r AHDB o fis Ebrill 2022 ymlaen ac i ymateb i ganlyniad y pleidleisiau garddwriaeth a thatws. Bydd y newidiadau blaenoriaeth hyn yn rhoi mwy o atebolrwydd i dalwyr ardollau gan roi mwy o lais iddynt yn y ffordd y caiff yr ardoll ei gwario a

byddant yn rhoi ystod ehangach o opsiynau i sectorau ac is-sectorau ar sut y gallant weithio gyda'r AHDB i gyflawni'r hyn y mae ar eu diwydiannau ei angen yn y dyfodol.

5.2 Mae'r newidiadau blaenoriaeth hyn yn ddechrau ar raglen barhaus i ddiwygio sut mae'r AHDB yn gweithredu ac i barhau i foderneiddio a diweddarau Gorchymyn yr AHDB i ategu'r rhaglen ddiwygio hon ac ymateb i anghenion y diwydiant. Rydym yn rhag-weld, yn y dyfodol, y gall fod angen rhagor o ddiwygiadau yn y ddeddfwriaeth megis newidiadau technegol i ganiatáu proses fwy effeithlon o gasglu ardollau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â thalwyr ardollau, rhanddeiliaid y diwydiant a'r AHDB i nodi ble mae angen diwygiadau pellach a byddwn yn ymgynghori eto cyn i unrhyw newidiadau pellach yng Ngorchymyn yr AHDB gael eu rhoi ar waith.

C19. Pa ddiwygiadau yng Ngorchymyn yr AHDB hoffech chi eu gweld yn cael eu cyflawni y dyfodol? Rhwch sylwadau isod.

6 Beth sy'n digwydd nesaf?

6.1 Dyddiad cau'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos ar 10 Ionawr 2022. Bydd ymatebion sy'n dod i law erbyn y dyddiad hwn yn cael eu dadansoddi a'u hystyried gan Weinidogion yn Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig mewn unrhyw newidiadau polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol. Bydd dadansoddiad cryno o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan gynnwys dadansoddiad o ymatebion y rhanddeiliaid yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael ei gyhoeddi ar wefannau Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig (yn Gymraeg ac yn Saesneg) o fewn 12 wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad hwn gau.

6.2 Yn ystod yr ymgynghoriad, os oes gennych unrhyw ymholiadau, anfonwch neges ebost aton ni yn: ViewsonAHDB@defra.gov.uk neu ysgrifennwch aton ni yn y cyfeiriad isod.

Defra
Consultation Coordinator
Defra
Foss House
Kings Pool
Unit 4 Foss House
1-2 Peasholme Green
York YO1 7PX